# Cynlluniau Llawn

Deddf Adeiladu 1984
Rheoliadau Adeiladu 2010

**Yr Uned Rheoli Adeiladu**
**Cyngor Sir Caerfyrddin**

| **TEIPIWCH NEU DEFNYDDIWCH BRIFLYTHRENNAU OS GWELWCH YN DDA** | **Rhif y Cais:** *(At ddefnydd y swyddfa'n unig)* |
|---|---|

| **1. Manylion yr Ymgeisydd** | **2. Manylion yr Asiant** (lle bo hynny'n berthnasol) |
|---|---|
| Enw : | Enw: |
| Cyfeiriad: | Cyfeiriad: |
| Côd post: | Côd post: |
| Rhif ffôn: | Rhif ffôn: |
| E-bost: | E-bost: |

**3. Lleoliad yr adeilad y gwneir gwaith iddo:**

Cyfeiriad:

Cod Post: Cyfeirnod grid: ______________________________

I gyd-fynd â'r cais hwn **rhaid** darparu **Cynllun Lleoliad** wrth raddfa o 1:1250 neu 1:2500 a **Chynllun Bloc** wrth raddfa o 1:500 gyda'r ffiniau wedi eu nodi'n glir â llinell goch ar y ddau gynllun.

**4. Gwaith arfaethedig:**

| **5. Cyn cyflwyno:** | **6. Ailgyflwyno:** |
|---|---|
| Os ydych wedi cyfarfod â Syrfëwr Rheoli Adeiladu cyn cyflwyno'ch cais, nodwch eich rhif cyfeirnod neu enw'r Syrfëwr:- | Os ydych yn ailgyflwyno cynlluniau a wrthodwyd yn y gorffennol, nodwch rif y cais blaenorol:- |

| **7. Arwynebedd llawr a nifer yr ystafelloedd gwely** | **8. Gwaith ar gyfer pobl ag anableddau:** **Ydy** ☐ **Nac ydy** ☐ |
|---|---|
| Cyfanswm arwynebedd llawr yr adeilad newydd/estyniad: ______ | *Ydy'r gwaith yn perthyn i un o'r categorïau a nodwyd yn Nodyn 8.* |
| Cyfanswm yr ystafelloedd gwely: ______ | |

**9. Defnyddio'r Adeilad:**

*(a) Os yw'n adeilad newydd neu'n estyniad, nodwch y defnydd arfaethedig:-*

*(b) Os yw'n adeilad presennol, nodwch y defnydd presennol:-*

*(c) Ydy **Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005** yn berthnasol i'r adeilad hwn, neu a fydd yn berthnasol ar ôl i'r gwaith adeiladu gael ei gwblhau* Ydy/Bydd ☐ Nac ydy/Na fydd ☐

| **10. Deddfau Cynllunio Gwlad a Thref:**<br>*(a) Oes ffurflen gais wedi'i chyflwyno neu benderfyniad wedi'i wneud ynghylch y gwaith dan sylw yn unol â'r Deddfau Cynllunio?*<br>Oes ☐ Nac oes ☐<br>*(b) Os **Oes** rhowch y rhif cyfeirnod:*<br>____________________ | **11. Draeniau:**<br>*(a) Dulliau Gwaredu Dŵr Budr:* ____________________<br>*(b) Dulliau Gwaredu Dŵr Arwyneb:* ____________________<br>*(c) Dulliau Cyflenwi Dŵr:* ____________________ |
|---|---|

**12. Gwaith Trydan Domestig** *(I'w gwblhau ar gyfer **POB defnydd domestig** gan gynnwys Gwaith Trydan)*

A fydd y gwaith trydan yn cael ei wneud gan drydanwr sydd wedi'i gofrestru â Chynllun Hunan-ardystio Rhan P?
**Bydd** ☐ **Na fydd** ☐

*Os BYDD rhowch enw'r corff sy'n gweithredu'r cynllun:* ____________________________________

*Os NA FYDD, cyflwynwch y **Ffurflen Gais Hysbysiad Adeiladu (Gwaith Trydan)** ac mae'n bwysig eich bod yn darllen Nodyn 12 – Codir tâl ychwanegol am y gwaith hwn.*

**13. Taliadau:** Amcangyfrif o gyfanswm costau'r gwaith £________

Ffi'r Cynllun: £________ TAW: £________ **Cyfanswm Ffi'r Cynllun**: £________

Ffi Arolygu: £________ TAW: £________ **Cyfanswm y Ffi Arolygu:** £________

Rhowch enw'r sawl sy'n gyfrifol am dalu Anfoneb y Ffi Arolygu wedi i'r gwaith ddechrau ar y safle:- Ymgeisydd ☐ Asiant ☐

..............................................................................................................................

**Cyfanswm y Ffïoedd:** £________ TAW: £________ **Cyfanswm Ffioedd y Gwaith: £________**

**14. Datganiad:**

**Rhoir yr Hysbysiad hwn mewn perthynas â'r gwaith adeiladu a ddisgrifiwyd ac fe'i cyflwynir yn unol â Rheol 12 (2) (b) ynghyd â'r ffi briodol.**

(a) Ydych chi'n cydsynio i'r cynllluniau gael eu derbyn yn amodol ar bennu amodau lle bo hynny'n briodol?
Ydw ☐ Nac ydw ☐ *(Gweler Nodyn 9)*
(b) Ydych chi'n cytuno bod y cyfnod a ganiateir ar gyfer cyhoeddi penderfyniad yn cael ei ymestyn o 5 wythnos i 8 wythnos ? Ydw ☐ Nac ydw ☐
(Ymestyn Terfynau Amser)

**Deallaf y bydd taliad arall *(y ffi Arolygu)* yn daladwy yn dilyn yr arolygiad cyntaf gan yr Awdurdod Lleol ac y byddaf yn derbyn anfoneb drwy'r post.**

**Enw:** ________________________

**Llofnodwyd** __________________________________ **Dyddiad:** ____________________

**Os gwelwch yn dda dychwelwch erbyn:**

Ebost: rheoli.adeiladu@sirgar.gov.uk
Yr Uned Rheoli Adeiladu, Cyngor Sir Gar, Ty Parcyhun, Ffordd Y Rhyd, Rhydaman, SA18 3FB

Cysylltwch â'n Taliwr i dalu'r ffi berthnasol ar **01267 228686** a nodi bod y taliad ar gyfer cais Rheoli Adeiladu.

## Nodiadau:

**1.** Yr ymgeisydd yw'r un y gwneir y gwaith ar ei ran, h.y. perchennog yr adeilad.

**2.** Dylech gwblhau dau gopi o'r hysbysiad hwn a'u cyflwyno ynghyd â chynllun lleoliad wrth raddfa o 1:1250 neu 1:2500 a'r ffiniau wedi'u marcio'n glir arno â llinell goch.

**3.** Lle mae'r gwaith arfaethedig yn cynnwys codi adeilad newydd neu estyniad rhaid cynnwys y canlynol gyda'r hysbysiad hwn:

**3.1** CYNLLUN BLOC/SAFLE wrth raddfa (1:500 neu 1:200 fel arfer) a'r ffiniau wedi'u marcio'n glir arno â llinell goch sy'n dangos:-
**3.1.1** Maint a safle'r adeilad, neu'r adeilad a helaethwyd a'i berthynas â'r ffiniau cyfagos;
**3.1.2** Ffiniau cwrtil yr adeilad, neu'r adeilad a helaethwyd a maint, safle a defnydd pob adeilad arall neu adeilad arfaethedig yn y cwrtil hwnnw;

**4.** Nodwch os gwelwch yn dda pa waith sydd wedi'i gynnwys yn y cynllun

**5.** Nodwch a oes Syrfëwr Rheoli Adeiladu wedi ymwneud â'r cais hwn cyn iddo gael ei anfon at yr Awdurdod Lleol - rhowch enw llawn y syrfëwr.

**6.** Er hwylustod, nodwch rif y cais a wrthodwyd

**7.** Nodwch gyfanswm arwynebedd llawr mewnol yr adeilad newydd a nodwch gyfanswm yr ystafelloedd gwely NEWYDD yn yr adeilad newydd.

**8.** Os yw gwaith i gael ei eithrio o'r taliadau, rhaid iddo gynnwys y canlynol:

**8.1 Addasiadau a wneir:-**

(i) yn unig at ddiben darparu **mynediad** er mwyn galluogi pobl anabl **i fynd i mewn** neu **allan** o adeilad presennol ac **i mewn neu allan o ran ohono** neu ddarparu **cyfleusterau** a luniwyd er mwyn gwella iechyd, diogelwch, lles neu gyfleustra'r cyfryw bobl; a

(ii) gwaith mewn perthynas â'r canlynol:
(a) Adeilad presennol y mae aelodau o'r **cyhoedd** yn cael mynediad iddo neu;
(b) Preswylfa bresennol sy'n gartref neu a fydd yn gartref i berson anabl

**8.2 Helaethu preswylfa, a'r ystafell i gael ei defnyddio'n unig er mwyn:-**

(i) rhoi triniaeth feddygol i berson anabl na ellir yn rhesymol ei rhoi mewn ystafell arall yn y breswylfa; neu
(ii) storio offer meddygol at ddefnydd person anabl; neu
(iii) darparu **ystafell angenrheidiol** neu **gyfleuster angenrheidiol** trwy **addasu neu gymryd lle ystafell** neu **gyfleuster presennol** mewn adeilad **nad oedd modd** i'r person anabl ei (d)defnyddio neu **ei (d)defnyddio heb gymorth.**

**9.** Mae Adran 16 o Ddeddf Adeiladu 1984 yn darparu ar gyfer caniatáu cynlluniau yn amodol ar bennu amodau. Gall yr amodau bennu newidiadau i'r cynlluniau a roddwyd ar gadw a/neu bennu bod yn rhaid rhoi cynlluniau pellach ar gadw.

**10.** Atgoffir pobl sy'n bwriadu gwneud gwaith adeiladu neu wneud newid defnydd perthnasol i adeilad y gall fod angen caniatâd arnynt dan y Deddfau Cynllunio Gwlad a Thref.

**11.** Lle bwriedir codi'r adeilad neu'r estyniad dros garthffos neu ddraen sydd wedi'i nodi ar fap perthnasol o garthffosydd cyhoeddus, nodwch y rhagofalon sydd i'w cymryd wrth adeiladu dros y garthffos neu'r draen.

**12.** Bydd y Cyngor yn mynnu eich bod yn darparu tystysgrifau profion ac arolygiadau boddhaol mewn perthynas â'r holl waith sydd heb gael ei gyflawni dan y Cynllun Personau Cymwys. Yn anffodus mae'n bosibl y bydd y gofynion hyn yn cynyddu'r gost i'r ymgeisydd ac yn achosi oedi (o ran trefnu bod trydanwr arall yn arolygu'r gwaith ac yn cynnal profion). Os oes unrhyw waith trydan yn cael ei wneud gan un sydd heb fod wedi'i gofrestru â NICEIC neu ECA mae'n rhaid cael tystysgrif gosod trydan ynghyd â thystysgrif prawf a roddir gan aelod o NICEIC neu ECA.
**Tystysgrifau Gwaith Trydan BS 7671 ar gyfer gwaith gosod newydd, ailwifro ac ychwanegu cylchedau newydd at waith trydan a osodwyd eisoes**
Os yw'r trydanwr **yn aelod** o NICEIC neu ECA, rhaid iddo/iddi gwblhau **Tystysgrif Gosod Trydan (Ffurflen 1)**
Os **nad** yw'r trydanwr yn aelod o NICEIC neu ECA, rhaid iddo/iddi gwblhau'r rhannau o'r **Dystysgrif Gosod Trydan (Ffurflen 2)** (diwygiedig) **- Dylunio ac Adeiladu a** bydd yn rhaid ichi drefnu bod trydanwr sy'n aelod o NICEIC, ECA neu'r Cynllun Personau Cymwys yn arolygu ac yn profi'r gwaith a osodwyd ac yna'n cwblhau'r adran o'r ffurflen sy'n ymwneud ag **Arolygu a Phrofi.**
Yn y ddau achos mae'n rhaid i'r trydanwr gwblhau **Atodlen Arolygu (Ffurflen 3)** ac **Atodlen Canlyniadau'r Prawf (Ffurflen 4) - socedi neu bwyntiau golau ychwanegol i'r holl rai presennol mewn cegin neu fan arbennig.**
Os yw'r trydanwr yn aelod o NICEIC, ECA neu'n dal cymhwyster Tystysgrif 2391 City & Guilds, rhaid iddo/iddi gwblhau **Tystysgrif Mân Waith (Ffurflen 5).**
**Mae'n rhaid rhoi copïau wedi'u cwblhau o'r ffurflenni priodol i'r Awdurdod yn dilyn cwblhau'r gwaith. Bydd methu â gwneud hyn yn atal yr Awdurdod rhag rhoi Tystysgrif Gwblhau a gall gymryd camau gorfodi rheolau yn eich erbyn chi a/neu eich trydanwr.** Cynghorir preswylwyr i beidio talu contractwyr hyd nes y byddant wedi cael y tystysgrifau gwaith trydan hyn a chadarnhad bod y gwaith adeiladu'n cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu.
Er gwybodaeth, y llwybr o ddewis o ran cael cymeradwyaeth yw eich bod yn defnyddio trydanwr sydd wedi'i gofrestru â Chynllun Hunan-ardystio Personau Cymwys.

**Bydd effaith y ffurflen gais hwn yn darfod ymhen tair blynedd ar ôl y dyddiad a roddwyd i'r Awdurdod Lleol oni bai bod y gwaith wedi'i ddechrau neu fod newid defnydd perthnasol wedi digwydd cyn terfyn y cyfnod hwnnw.**